




Cynlluniau Datblygu yng Nghymru: Canllaw Cyflym

Mae cynllun datblygu yn gosod sut dylid defnyddio tir a ble ddylai datblygu ddiwydd dros gyfnod penodol o amser. Mae cynllun datblygu'n sicrhau bod datblygiad yn gynaliadwy ac o fudd i'r cyhoedd. Mae'n rhaid i'r holl benderfyniadau ar geisiadau cynllunio fod yn unol â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd.

Mae tair haen i'r system cynllun datblygu yng Nghymru gyda chynlluniau'n cael eu paratoi ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Golyga hyn bydd 'cynllun datblygu' ar gyfer ardal, yn y pen draw, yn cynnwys bob un o'r tri chynllun.



Beth mae Cynlluniau Datblygu yn ei wneud?

Mae cynllun datblygu yn darparu fframwaith polisi sy'n:

- Nodi graddfa twf yn cynnwys y nifer o dai a swyddi
- Gosod allan y strategaeth ofodol a lleoliadau i'w datblygu yn y dyfodol
- Dosrannu tir ar gyfer datblygiadau newydd yn cynnwys safleoedd tai a chyflogaeth
- Nodi darpariaeth seilwaith newydd yn cynnwys ffyrdd ac ysgolion
- Nodi tir i'w warchod rhag ei ddatblygu
- Sicrhau dyluniad da a chreu lle

Amcan allweddol y system datblygu cynllun yng Nghymru yw sicrhau bod cynlluniau datblygu'n seiliedig ar ymrwymiad ac ymgysylltiad cymunedol cynnar ac effeithiol (gweler tudalen 3).


Beth yw'r Tair Lefel sydd yn y system Cynlluniau Datblygu yng Nghymru?

Y tair lefel sydd yn y system cynlluniau datblygu yw:



Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040

Y cynllun hwn yw'r lefel uchaf mewn cynlluniau datblygu; caiff ei baratoi gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar atebion i faterion a heriau ar lefel genedlaethol. Cyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol yn Chwefror 2021 ac mae'n llunio rhan o'r cynllun datblygu ar gyfer Cymru gyfan.



Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS)

Adeiladir ar fframwaith y cynllun cenedlaethol gan Gynlluniau Datblygu Strategol (CDS) sydd wedi eu paratoi gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig (C-BC) ar lefel ranbarthol. Bydd y cynlluniau'n canolbwyntio ar faterion sy'n croesi ffiniau Awdurdodau Cynllunio Lleol ac yn edrych ar sut mae pobl yn y pedwar rhanbarth yng Nghymru yn treulio eu bywydau bob dydd - wrth eu gwaith, eu patrymau cymudo, siopa a gweithgareddau hamdden.



Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) a Chynlluniau Datblygu Lleol Cryno (CDLIC)

Adeiladir ar fframwaith cynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol gan Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) sydd wedi eu paratoi gan Awdurdodau Cynllunio Lleol. Bydd CDLI yn canolbwyntio ar faterion, polisiâu a chynigion ymhob ardal awdurdod ar draws Cymru. Hefyd bydd Cynlluniau Datblygu Lleol Cryno (CDLIC) yn cael eu paratoi yn dilyn mabwysiadu CDS a bydd y cynllun hwn yn fyrrach ac â mwy o ffocws o ran ei natur, gan fod graddfa a lleoliad twf eisoes wedi ei osod yn y CDS a fabwysiadwyd ar gyfer pob ardal Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI).

Sut a phryd gall cymunedau ymgysylltu?

Amcan allweddol y system datblygu cynllun yng Nghymru yw sicrhau bod cynlluniau datblygu'n seiliedig ar ymrwymiad ac ymgysylltiad cymunedol cynnar ac effeithiol.

Cyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 gan Lywodraeth Cymru yn Chwefror 2021. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu bob 5 mlynedd, gyda'r adolygiad nesaf i fod i ddigwydd yn 2026. Pan fo pob adolygiad yn cychwyn, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **Datganiad Ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd**, a fydd yn gosod sut a phryd y gall pobl ymgysylltu.

Mae Cynlluniau Datblygu Strategol, Cynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Datblygu Lleol Cryno yn cael eu paratoi yn dilyn camau sy'n debyg i'r rhai a welir yn y diagram isod*.



* Ni chynhelir ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir yn ystod proses paratoi'r Cynlluniau Datblygu Lleol.

Bydd Cytundeb Cyflawni yn cael ei baratoi ar gyfer pob un o'r cynlluniau datblygu hyn a bydd yn cynnwys amserlen a **Chynllun Cynnwys Cymunedau** a fydd yn gosod sut a phryd y gall pobl ymgysylltu.

Mae ymgysylltiad cymunedol a chyflenwi datblygu cynaliadwy yn ganolog i baratoad cynllun datblygu.

Mwy o wybodaeth

Ceir fersiwn lawn o'r canllaw hwn yn:

<https://llyw.cymru/canllawiau-cymunedol-ar-gynlluniau-datblygu>